Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio
Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych

## Rhestr o Brosiectau a Ddyfarnwyd

Paratowyd gan Dawn Johnson,
Swyddog Prosiect, Cadwyn Clwyd
27/10/2025

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# 1. Cyflwyniad

Mae ffurflenni Cronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych yn ategu nod Sir Ddinbych i gefnogi darparu cymorth cyflogadwyedd o safon sy'n fodd i bobl o bob oedran gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn bersonol ac yn broffesiynol.

Mae'r sefydliadau sydd wedi'u rhestru isod wedi llwyddo i ennill cyllid gan Gronfa Allweddol Pobl a Sgiliau Sir Ddinbych 2025-26. Mae'r tabl isod yn dangos eu Prosiect(au) a'r dyraniad cyllid a ddyfarnwyd..

| Funded Organisation | Name of Project | Funding Secured | Slide |
|---|---|---|---|
| Agrication | Ffermio Ymlaen Sir Ddinbych | £ 38,875.00 | 3 |
| Ysgol Uwchradd Dinbych | Prosiect Cymunedol Ysgol Uwchradd Dinbych | £ 25,035.00 | 4 |
| GLLM | Camau Cefnogol | £ 43,707.56 | 5 |
| Dysgu Awyr Agored Llangollen | Yr Entrepreneur | £ 57,900.00 | 6 |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn | Entrepreneuriaeth ar Waith | £ 16,532.72 | 7 |
| Ysgol Uwchradd Prestatyn | Campws Cymunedol | £ 23,756.18 | 8 |
| RCS | Hyfforddiant i'r Gwaith 100 | £ 12,811.68 | 9 |
| Adnodd Sir Ddinbych | Dyheu | £ 66,434.00 | 10 |
| Adnodd Sir Ddinbych | Tyfu Sgiliau Gwyrdd | £ 28,400.00 | 11 |
| Cerrig Camu | Y Camau Nesaf Tuag At Ddyfodol Gwell | £ 21,900.00 | 12 |
| Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl) | Camau Cymuned | £ 29,382.78 | 13 |

# Agrication

| Sefydliad | Agrication |
| --- | --- |
| Enw'r Prosiect | Ffermio Ymlaen Sir Ddinbych £38,875.00 |
| Cynulleidfa Darged | Trigolion De Sir Ddinbych 16+ |
| Cyfleoedd Pellach | Gwirfoddoli, Lleoliad Gwaith (gyda chefnogaeth) |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Medi'r 1af – Rhagfyr y 19eg 2025** |
| Cyswllt | Cheryl Reeves info@agrication.co.uk 07792561345 |
|   | Mae'r prosiect yn cyflwyno dull unigryw o ran mynd i'r afael â diffygion mewn rhaglenni cyflogaeth neu hyfforddiant traddodiadol drwy gyfuno ffermio cynaliadwy, cynhyrchu bwyd, cymorth iechyd meddwl a datblygiad personol. Nod y prosiect hwn yw cynnig y sgiliau hanfodol yn ymwneud ag amaethyddiaeth, bwyd, maeth ac entrepreneuriaeth i bobl ifanc gan eu helpu hefyd i hybu eu hyder, gwydnwch a lles emosiynol.<br><br>Mae'r prosiect yn cynnig 2 sesiwn flasu: un lleol yng Nghorwen / Llangollen a'r llall ar safle yn eu fferm weithredol ym Mangor-is-y-coed, Wrecsam.<br><br>Yn dilyn hyn bydd 6 wythnos o bresenoldeb unwaith yr wythnos ar safle ar y Fferm. Yn y bore bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn cyflawni tasgau sydd angen eu cwblhau ar y fferm e.e. bwydo'r anifeiliaid. Mae'r prynhawniau'n hyblyg yn dibynnu ar ddiddordebau'r unigolyn sy'n cymryd rhan: gweithio ar weithgareddau galwedigaethol, cwblhau hyfforddiant ar y tir neu gyflawni gwaith datblygiad personol wedi'i gefnogi gan hyfforddwyr / mentoriaid.<br><br>Caiff yr holl drafnidiaeth yno ac yn ôl o Dde Sir Ddinbych, lletygarwch ac Offer Diogelu Personol eu darparu. |

Funded by UK Government

# Ysgol Uwchradd Dinbych

| **Sefydliad** | **Ysgol Uwchradd Dinbych** |
| --- | --- |
| Enw'r Prosiect | Prosiect Cymunedol Ysgol Uwchradd Dinbych **£25,035.00** |
| Cynulleidfa Darged | Disgyblion Bl10 a Bl11 Ysgol Uwchradd Dinbych sydd mewn perygl o ddod yn NEET (Pobl Ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) pan maen nhw'n gadael yr ysgol |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | Medi'r 10fed – Chwefror yr 20fed 2026 |
| Cyswllt | Stuart Howson showson@denbighhighschool.co.uk 01745 812485 |
|  | Bydd y prosiect ar waith ar safle'r Ysgol bob dydd Mercher. Caiff y diwrnod ei rhannu'n 2 ran. Yn y bore bydd y prosiect yn canolbwyntio ar weithio tuag at ennill **Tystysgrif Pearson BTEC Lefel 2, Tystysgrif a Diploma Estynedig mewn Gwaith Tîm a Datblygiad Personol yn y Gymuned** gyda MPCT (Prosbectws Ysgolion Cymru MPCT 2025). Mae hon yn dystysgrif gydnabyddedig yn seiliedig ar lyfr gwaith sy'n canolbwyntio ar gymwyseddau craidd megis gwaith tîm, cyfathrebu, arweinyddiaeth, rheoli amser, a datrys problemau – sydd i gyd yn sgiliau hanfodol ar gyfer llwyddiant mewn gwaith ac entrepreneuriaeth.<br><br>Mae'r prynhawniau'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau mentergarwch a busnes drwy roi'r sgiliau sydd wedi'u dysgu yn ystod sesiynau'r bore ar waith. Mae yna 2 ddewis ar gyfer y prynhawniau:<br><br>**Dewis 1 Prosiectau Entrepreneuri eth Cymunedol:** bydd y dysgwyr yn cyflawni prosiectau cymunedol o'r cychwyn i'r diwedd pob hanner tymor a byddan nhw ynghlwm â chynigion, cynllunio a rheoli prosiectau. Bydd yn yr ysgol neu yn y gymuned gyda chefnogaeth.<br><br>**Dewis 2 Prosiect Gwasanaethau Salon:** lle bydd y dysgwyr yn dysgu sut i gynnig ystod o Wasanaethau Salon yn yr ysgol gydag EDUCATE. Bydd y dysgwyr yn cynnig y gwasanaethau hyn i gartrefi nyrsio a grwpiau bregus eraill yn y gymuned yn rhad ac am ddim.Bydd hyn yn annog rhyngweithio gyda phobl o gymunedau sy'n agored i niwed wrth ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth ynghyd ag empathi a thrugaredd – sy'n annatod ar gyfer gweithio mewn nifer o sefydliadau galwedigaethol. |

# Grŵp Llandrillo Menai

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Grŵp Llandrillo Menai** |
| Enw'r Prosiect | **Camau Cefnogol** **£43,707.56** |
| Cynulleidfa Darged | Dysgwyr Sir Ddinbych ar gampysau y Rhyl, Llandrillo-yn-Rhos, Abergele a Dinbych GLlM |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Medi'r1sf – Chwefror y 27ain 2026** |
| Cyswllt | Zoe Fox fox1z@gllm.ac.uk 07548837066 |
|   | Bydd Camau Cefnogol yn cynnig rhaglen wedi'i dargedu o gymorth ar gyfer pobl ifanc 16 oed a hŷn sy'n anweithredol yn economaidd, sy'n byw yn Sir Ddinbych ac yn astudio ar unrhyw un o'n campysau Coleg Llandrillo (Y Rhyl, Llandrillo-yn-Rhos, Abergele a Hwb Dinbych).<br><br>Nod y prosiect yw ail-ymgysylltu dysgwyr drwy addysg integredig ac ymyraethau lles, gan gydweithio'n agos gyda Sir Ddinbych yn Gweithio, ysgolion uwchradd lleol, a gwasanaethau cymorth mewnol colegau i leihau'r perygl o bobl ifanc yn Rhoi'r gorau i'w cwrs coleg a dod yn NEET, drwy fynd i'r afael gyda'u heriau academaidd ond hefyd y rhwystrau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl sy'n aml yn arwain at ymddieithrio..<br><br>Bydd y prosiect yn cynnig cymorth i ddysgwyr drwy amrywiaeth o wahanol rolau arbenigol, yn dibynnu ar yr anghenion unigol, a allai gynnwys cymorth gan fwy nac un aelod arbenigol o staff. |

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio / Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# Dysgu Awyr Agored Llangollen

| **Sefydliad** | **Dysgu Awyr Agored Llangollen** | Canolfan Addysg Awyr Agored BRYNTYSILIO Outdoor Education Centre |
|---|---|---|
| Enw'r Prosiect | Yr Entrepreneur | £57,900.00 |
| Cynulleidfa Darged | Disgyblion Blwyddyn 11 yn Sir Ddinbych sy'n awyddus i ddeall mwy am sut mae busnesau'n gweithio | |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol | |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Medi 2025 - Chwefror 2026** | |
| Cyswllt | Chris Eastabrook chris.eastabrook@bryntysilio.co.uk 07843098980 | |
|   | Mae'r rhaglen breswyl pedwar diwrnod o hyd hwn ym Mryntysilio ("*Brynty*") yn grymuso disgyblion Blwyddyn 11 i ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd a chyflogadwyedd drwy ddysgu awyr agored ymdrochol..<br><br>Bydd pob rhaglen yn cychwyn gan gludo'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn bws mini i ac o Brynty, lle byddan nhw'n aros mewn yurts wedi'u hinswleiddio. Yn ystod diwrnod un bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn datblygu sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol drwy ganŵio a bydd cyflwyniad i werthiannau a marchnata drwy chwarae rôl, yna proffilio personoliaethau (Belbin, Myers-Briggs). Yn ystod yr ail ddiwrnod bydd cyfuniad o ddringo a heriau cyllid-busnes a mapio dynameg tîm estynedig. Ar y drydydd diwrnod bydd sefyllfa achub mewn ceunant yn meithrin arweinyddiaeth gydweithredol, asesu risg a rheoli digwyddiadau wrth i'r rheiny sy'n cymryd rhan baratoi ar gyfer eu digwyddiad untro. Yn ystod y bedwerydd diwrnod bydd y bobl ifanc yn rhoi sgiliau cyllidebu, marchnata a gwasanaeth cwsmer ar waith mewn safleoedd dros dro yn Llangollen – gan gyfrannu'r elw i elusennau – cyn bwrw iddi i gynnal adolygiad ôl-weithrediad..<br><br>Bydd sesiynau myfyrio strwythuredig a chymorth mentora cyfoedion yn help i fapio cryfderau personol, gwydnwch a llwybrau gyrfaoedd. Bydd y rheiny sy'n cymryd rhan hefyd yn llunio portffolio o gynlluniau busnes, tystebau, a hunan-fyfyriadau i ategu ceisiadau yn y dyfodol..<br><br>Yr ymgeiswyr delfrydol ydy'r rheiny sydd â diffyg hyder, sydd mewn perygl o adael yr ysgol yn gynnar, neu sydd â dichonoldeb arwain cudd – sy'n ffynnu gyda datrys problemau ymarferol, rhyngweithio cymdeithasol, a dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy efelychu gweithrediadau busnesau bach a hwyluso mentora parhaus, mae'r prosiect yn pontio'r bwlch rhwng dichonoldeb personol a chyflogaeth yn y byd go iawn. | |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Ysgol Uwchradd Prestatyn

| **Sefydliad** | **Ysgol Uwchradd Prestatyn** |
|---|---|
| Enw'r Prosiect | Campws Cymunedol £23,756.18 |
| Cynulleidfa Darged | Dysgwyr Bl11 Ysgol Uwchradd Prestatyn sydd mewn perygl o ddod yn NEET |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Tachwedd y 3ydd – Chwefror y 13eg 2026** |
| Cyswllt | Alex Fuller afuller@prestatynhigh.co.uk 01745 852312 |
|  | Mae hwn yn rhaglen 1 diwrnod yr wythnos am 13 wythnos, sydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer hyd at 10 o ddysgwyr Bl11 Ysgol Uwchradd Prestatyn sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Bydd yn cynnig llwybr datblygu personol strwythuredig iddyn nhw, ynghyd â sgiliau bywyd ymarferol a chyfraniad cymunedol yn ystod y cam pontio tyngedfennol hwn yn eu bywydau.<br><br>Mae'r prosiect yn cynnig cyfres o weithgareddau amrywiol i'r rheiny sy'n cymryd rhan gan gynnwys coginio, bocsio (Empire fighting), creu / golygu ffilmiau (gan ddefnyddio drôn/camera) a sgiliau stiwdio/cyfryngau (creu podlediad, cynhyrchu a golygu cerddoriaeth) I hybu a chryfhau eu lefel o hunan-hyder, hunan-ofal, sgiliau busnes a phrosiect meddal a gwybodaeth ar gyfryngau technegol drwy gyflawni pob agwedd o waith ffilmio / stiwdio. Fel rhan o'r prosiect, bydd cyfle iddyn nhw hefyd arddangos eu sgiliau newydd drwy gynorthwyo gyda chynnig gwasanaeth yng nghartref gofal Nant Y Mor drwy weini te prynhawn, cynnal y sesiwn bingo a recordio straeon bywyd fel rhan o bodlediad treftadaeth.<br><br>Bydd y rheiny sy'n cymryd rhan yn treulio'r diwrnod olaf yn ymweld â Cheunant Afon Ddu Llanrwst ar gyfer cerdded ceunant a phicnic. Caiff y prosiect ei gynnal yn hwb cymunedol newydd Ysgol Uwchradd Prestatyn sef Y Bobl, fodd bynnag caiff y gweithgareddau eu cynnal ledled sawl lleoliad ar hyd arfordir Gogledd-ddwyrain Sir Ddinbych. Caiff yr holl drafnidiaeth o ac i Ysgol Uwchradd Prestatyn a lletygarwch ei ddarparu. |

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio / Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# Ysgol Uwchradd Prestatyn

| **Sefydliad** | **Ysgol Uwchradd Prestatyn** |
| --- | --- |
| Enw'r Prosiect | Entrepreneurship ar Waith £16,532.72 |
| Cynulleidfa Darged | Ysgol Uwchradd Prestatyn dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol / Anabl sydd mewn perygol o ddod yn NEET |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Tachwedd y 3ydd – Chwefror y 13eg 2026** |
| Cyswllt | Alex Fuller afuller@prestatynhigh.co.uk 01745 852312 |
|  | Mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i 10 o bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol fanteisio ar ddysgu fel rhan o brosiect a fydd yn eu cefnogi i sefydlu'r caffi cymunedol yn hwb cymunedol newydd Ysgol Uwchradd Prestatyn o'r enw Y Bobl. Y nod yw sicrhau bod y caffi yn le cymunedol diogel a chlyd i bobl leol gwrdd a manteisio ar fwyd. Mae teuluoedd disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi ac o ganlyniad bydd y Prosiect hefyd yn ymgysylltu gyda'u rhieni i'w cysylltu gydag ystod o wasanaethau cyngor / cymorth iddyn nhw eu hunain a modd i'r bobl ifanc fanteisio ar wasanaethau a chyfleoedd unwaith y bydd eu hamser yn yr ysgol wedi dod I ben.<br><br>Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnig cyfle i'r bobl ifanc hyn gyflawni Agored a chymwysterau perthnasol eraill sy'n ymwneud â sgiliau'r gweithle a bydd yn golygu eu bod yn cael o leiaf un diwrnod pwrpasol i ffwrdd o'r ysgol yr wythnos. Bydd yr holl drafnidiaeth i ac o Ysgol Uwchradd Prestatyn a lletygarwch yn cael ei ddarparu.<br><br>Yn ystod hanner cyntaf y prosiect, bydd pob person ifanc yn cyflawni eu tystysgrif Lefel 1 mewn Hylendid Bwyd ac yn cychwyn ar y broses o gynllunio a datblygu'r caffi ar hyn bydd yn ei gynnig gan hefyd ddewis y cymwysterau (sy'n bodloni eu hanghenion a galluoedd unigol) y byddan nhw'n eu cwblhau. Bydd gan bob dysgwr gynllun pwrpasol felly trwy gydol y prosiect. Bydd yr ail hanner yn canolbwyntio ar y bobl ifanc yn lansio ac yn cynnal y Caffi wrth gwblhau'r cymhwyster maen nhw wedi'i ddewis. Bydd y prosiect yn dirwyn i ben gyda digwyddiad dathlu lle bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn dogfen sy'n amlinellu'r sgiliau barod i weithio maen nhw wedi'u hennill a'r dystiolaeth I ddangos hyn (mae'n bosibl na fydd y tystysgrifau'n barod iddyn nhw eto). |

Ysgol Uwchradd Prestatyn High School
"Llwyddiant i bawb drwy bositifrwydd a chyfrifoldeb"
"Achievement for all through positivity and responsibility"



Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio / Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# RCS Wales

| Sefydliad | RCS Wales |
|---|---|
| Enw'r Prosiect | **Hyfforddiant i'r Gwaith 100** **£12,811.68** |
| Cynulleidfa Darged | Trigolion Sir Ddinbych sydd newydd eu cyflogi (ymhen eu 3 mis gyntaf o fod wedi'u cyflogi) |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Awst y 18fed – Chwefror y 13eg 2026** |
| Cyswllt | Kerry Jones, Head of Operations workwell@rcs-wales.co.uk 01745 336442 |
|   | Mae Hyfforddiant i'r Gwaith 100 yn cynnig rhaglen hyfforddiant strwythuredig i helpu gweithwyr i gynnal cyflogaeth a datblygu ynddo. Ei nod yw cefnogi gweithwyr newydd i fynd i'r afael â'r newid i weithio yn ystod y 100 diwrnod cyntaf. Mae hefyd yn addas ar gyfer gweithwyr a allai fod yn agored i niwed yn y gwaith yn sgil cyflwr iechyd, niwrowahaniaeth neu anabledd.<br><br>Bydd y rhaglen hon yn gymorth i'r rheiny sy'n cymryd rhan i ddatblygu gwydnwch a hybu eu hyder, a mynd rhagddi I gyflawni nodau sy'n ymwneud â gwaith megis sicrhau cytundeb parhaol, cynnydd mewn oriau neu gyfrifoldebau, neu ddyrchafiad yn y gwaith. Bydd sesiynau wedi'u teilwra'n unigol yn eu helpu i ddatblygu sgiliau a dulliau ymdopi a mynd i'r afael â heriau cyffredin yn y gweithle megis llywio rhyngweithiau cymdeithasol neu reoli galwadau ac osgoi chwythu eu plwc. Bydd yn gyfle i weithwyr newydd oresgyn unrhyw ansicrwydd ynghylch y byd gwaith a sicrhau graddau mwy o annibyniaeth.<br><br>Bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn derbyn pedair sesiwn strwythuredig gyda hyfforddwr cymwys (naill ai o bell / ar-lein neu wyneb yn wyneb), wedi'u cyflwyno dros gyfnod o 3 mis i ganiatáu amser i ymgorffori dysgu. |

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio
Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# Adnodd Sir Ddinbych CBC

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Adnodd Sir Ddinbych CBC** |
| Enw'r Prosiect | **Dyheu** **£66,334.00** |
| Cynulleidfa Darged | Pobl ifanc / oedolion 16+ sy'n wynebu rhwystrau rhag dod o hyd i waith |
| Cyfleoedd Pellach | Hyfforddiant / gwirfoddoli / lleoliadau gwaith ychwanegol gyda phartner Rhwydwaith Cyflogaeth gyda Chefnogaeth |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Medi'r 1af – Chwefror y 27ain 2026** |
| Cyswllt | Janine Cusworth janine@resourcewales.com 07941914323 |
|   | Mae Adnodd yn GBC cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n ymroi i godi dyheadau ar gyfer unigolion sy'n anweithredol yn economaidd, wrth hyrwyddo gweithrediadau amgylcheddol cadarnhaol yn ogystal.<br><br>Mae'r prosiect hwn yn fodd i Adnodd gynnig cyfleoedd lleoliadau gwaith 15 munud ychwanegol i bobl ifanc / oedolion gydag anghenion dysgu cymhleth. Caiff unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag mynd rhagddi gyda'u diddordebau ac sydd ddim mewn gwaith / yn gwirfoddoli ar hyn o bryd a heb gymhwyster Lefel 2 neu gyfwerth, eu cefnogi.<br><br>Caiff cyfleoedd lleoliadau gwaith eu cynnal ym mhrosiectau cymunedol eraill Adnodd ledled Rhuthun a Sir Ddinbych: siop, caffi a gerddi. Gan weithio o safbwynt person yn ganolog a gyda chymorth Gweithiwr Allweddol unigol, caiff y rheiny sy'n cymryd rhan eu cefnogi i ennill sgiliau, rhoi cynnig ar eu diddordebau, hybu hyder ac ennill cymwysterau sy'n ymwneud â gwaith.<br><br>Bydd y prosiect ar waith o Awst 2025 hyd at Chwefror 2026 a bydd yn derbyn atgyfeiriadau gan sefydliadau sector cyhoeddus / gwirfoddol eraill, darparwyr gofal, unigolion a'u gofalwyr. |





Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio Working Denbighshire
CADWYN CLWYD

# Adnodd Sir Ddinbych CBC

| | | |
|---|---|---|
| **Sefydliad** | **Adnodd Sir Ddinbych CBC** | |
| Enw'r Prosiect | **Tyfu Sgiliau Gwyrdd** | **£28,400** |
| Cynulleidfa Darged | Trigolion Gogledd / Canolbarth / De Sir Ddinbych, Oedran: 16-25 | |
| Cyfleoedd Pellach | Lleoliadau gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli | |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Medi'r 8fed – Ionawr y 30ain 2026** | |
| Cyswllt | Janine Cusworth janine@resourcewales.com | 07941914323 |




Mae Adnodd yn GBC cymdeithasol ac amgylcheddol, sy'n ymroi i godi dyheadau ar gyfer unigolion sy'n anweithredol yn economaidd, wrth hyrwyddo gweithrediadau amgylcheddol cadarnhaol yn ogystal. Bydd y prosiect hwn yn cynnig cyfle unigryw i bobl ifanc (16-25 oed) i achub ar gyfle dysgu Sgiliau Gwyrdd.

Mae hwn yn gwrs 8 wythnos yn Rhuthun, lle byddwch yn meithrin dealltwriaeth dda o'r egwyddorion allweddol sydd ynghlwm â'r Economi Gylchol ac Ynni Adnewyddadwy ynghyd ag ennill sgiliau gwyrdd hanfodol ac ymarferol.

Pob wythnos, byddwch yn bwrw golwg ar wahanol agwedd o sgiliau gwyrdd. Byddwch yn ennill sgiliau mewn plastigau, creu/uwchgylchu/ailbwrpasu eco, manteisio ar ynni solar ac ynni gwynt. Byddwch yn bwrw golwg ar reoli prosiectau Gwyrdd o'r cychwyn i'r diwedd yn ogystal. Bydd gwahanol siaradwyr gwadd arbenigol yn ymuno gyda chi wrth i'r cwrs fynd rhagddo i ategu eich hyfforddiant.

Bydd y Prosiect Tyfu Sgiliau Gwyrdd ar waith o Fedi 2025 hyd at Chwefror 2026.

# Cerrig Camu Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| **Sefydliad** | **Stepping Stones North WalesCerrig Camu Gogledd Cymru** |
| Enw'r Prosiect | Y Camau Nesaf tuag at Ddyfodol Gwell **£14,000.00** |
| Cynulleidfa Darged | Trigolion Sir Ddinbych sydd ar Restr Aros Cerrig Camu |
| Cyfleoedd Pellach | Amherthnasol |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Awst yr 11eg – Chwefror yr 20fed 2026** |
| Cyswllt | Shirley McCann shirley@steppingstonesnorthwales.co.uk 07508448130 |
| | Mae Cerrig Camu Gogledd Cymru yn elusen sydd ar waith ers 41 mlynedd sy'n cynnig cymorth ledled chwe sir Gogledd Cymru, i oedolion sy'n oroeswyr camdriniaeth rhywiol yn ystod plentyndod. Gallwch fanteisio ar ein gwasanaethau'n rhad ac am ddim, a gallai unrhyw un atgyfeirio drwy ffonio ein llinell gymorth neu fwrw golwg ar ein gwefan.<br><br>Nodau ein prosiect yw cysylltu gydag ein cleientiaid yn Sir Ddinbych i gynnig cwnsela 1-i-1 proffesiynol, therapi celf, modd i fanteisio ar ddosbarthiadau addysg megis sgiliau bywyd a dulliau amgen o ddysgu. Byddwn yn ymwneud gydag aelodau'r teulu hefyd, a chaiff holl aelodau'r prosiect eu cefnogi gan staff a mentoriaid sydd wedi'u hyfforddi.<br><br>Hoffem weld hwb mewn iechyd meddwl a lles, cynnydd mewn hyder a hunan-barch, sgiliau newydd, cymwysterau a chyfleoedd dysgu gyda chefnogaeth, er mwyn i'r holl unigolion fynd rhagddi i allu gwneud dewisiadau bywyd mwy gwybodus, achub ar gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli a datblygu teuluoedd cryfach. |

Funded by UK Government

Sir Ddinbych yn Gweithio / Working Denbighshire

CADWYN CLWYD

# Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl

| **Sefydliad** | **Prosiect Pobl Ifanc Gorllewin Y Rhyl** |
| --- | --- |
| Enw'r Prosiect | Camau Cymuned **£29,382.78** |
| Cynulleidfa Darged | Trigolion Gogledd Sir Ddinbych 16+ |
| Cyfleoedd Pellach | Gwirfoddoli, dysgu achrededig pellach |
| Amserlen Cyflawni'r Prosiect | **Hydref y 14eg – Chwefror y 13eg 2026** |
| Cyswllt | Chris Coyle chris@rhylyouth.co.uk 07716 843 535 |





Nod Camau Cymuned yw paratoi pobl ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol o ran gwaith ieuenctid, cymorth cymunedol, a rolau sy'n ymwneud â gweithgareddau. Fel rhan o'r rhaglen, bydd cyfleoedd i gyflawni dau gwrs achrededig ar wahân: **Lefel 1 Egwyddorion ac Ymarferion mewn Gwaith Ieuenctid**, a **Chwrs Hyfforddwr Campfa Lefel 2**.

Gallai'r rheiny sy'n cymryd rhan gofrestru i un neu'r ddau gwrs, oherwydd y byddan nhw'n cael eu cyflwyno ar ddiwrnodau ar wahân o'r wythnos. Does dim angen unrhyw brofiad neu hyfforddiant ymlaen llaw ar gyfer y naill gwrs neu'r llall.

Caiff cymorth cofleidiol ei ddarparu i'r rheiny sy'n cymryd rhan trwy gydol y rhaglen, gyda diwrnodau astudio anffurfiol ategol gyda gweithwyr allweddol a sesiynau galw heibio wythnosol i helpu'r rheiny sy'n cymryd rhan i gadw mewn cysylltiad a pharhau gyda'u dysgu.

Mae Camau Cymuned yn cynnig cyfle i'r rheiny sy'n cymryd rhan i sefydlu arferion cynaliadwy, ennill profiad ymarferol mewn sefydliadau cymunedol a chyflawni cymhwyster cydnabyddedig. Bydd hefyd yn cynnig carreg camu tuag at waith gyda thâl, gwaith gwirfoddol neu ddysgu pellach.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council